



## Newyddion o Un Llais Cymru:

Croeso i Rifyn 7 o E-fwletin Un Llais Cymru. Mae'r rhifyn yma yn llawn o'r wybodaeth ddiweddaraf am ein prosiect Costau Byw a'r rhaglen Lleoedd lleol ar gyfer natur, ynghyd â newyddion allweddol a chyfleoedd i gefnogi eich gwaith mewn cymunedau lleol.

---

## Newyddion



### RHEOLI MYNEDIAD AELODAU'R CYHOEDD I GYFARFODYDD Y CYNGOR A'R PWYLLGORAU

Dylai cynghorau sy'n cynnal eu cyfarfodydd ar sail hybrid neu'n gyfan gwbl o bell fod yn ymwybodol o ddigwyddiad diweddar a gafwyd mewn Cyngor Tref pan ymunodd tri o unigolion â chyfarfod Pwyllgor dros Zoom o bell, ac o fewn munud neu ddwy, dangoswyd deunydd pornograffig. Gwnaeth y Clerc weithredu ar unwaith drwy cau'r cyfarfod, ac er mai dim ond am ychydig eiliadau y dangoswyd y deunydd, roedd yn sioc i bawb oedd yn bresennol, gan gynnwys cynrychiolydd ieuenctid.

Mae'n bwysig bod cynghorau'n cael gwybod am y digwyddiad annymunol hwn, a'r camau y gallent eu hystyried i'w atal rhag digwydd iddyn nhw. Yn hytrach na chyhoeddi dolen agored i ymuno â'r cyfarfod yn yr agenda neu ar y wefan, gall cynghorau wahodd aelodau o'r cyhoedd i ofyn am y ddolen gan y Clerc neu aelod arall o'r staff. Byddai'r dull hwnnw'n bodloni gofynion Deddf Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2021 a Deddf Corfforaethau Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960.


Yn ymarferol, mae darparu manylion mynediad i gyfarfod yn y dull hwn yn creu cam ychwanegol i aelodau o'r cyhoedd, ond nid yw'n afresymol pan fod trefniadau digonol ar waith i sicrhau y bydd ceisiadau'n cael ymateb, ac nad yw'n creu rhwystr i'w presenoldeb na'u hymgysylltiad.

O ran gofyn am hunaniaeth, nid oes unrhyw ofyn statudol i'r rhai sy'n mynychu gyfleu pwy ydyn nhw, ac er y gall cynghorau reoleiddio trafodion, gallai ei gwneud yn orfodol mewn gorchmynion sefydlog wrthdaro â hawliau'r cyhoedd i gael mynediad. Mae'n debygol y byddai gofyn o'r fath yn cael ei ystyried yn ultra vires am iddo rwystro cyfranogiad y cyhoedd.

---

## Werth ffeindio amser i'w wylio ar wefan Un Llais Cymru:

### Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau:




**Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau :**

Mae Un Llais Cymru wedi cyhoeddi trefniadau enghreifftiol i helpu Cynghorau i redeg yn effeithiol a chyflawni eu rhwymedigaethau statudol. Rydym hefyd yn dosbarthu canllawiau statudol a chanllawiau eraill.


Rydym yn adolygu'r trefniadau hyn yn rheolaidd, gan helpu Cynghorau i gynnal fframwaith llywodraethu cadarn

**Cliciwch ar y ddolen i weld pa ddogfennau sydd ar gael**

Mwy o Fanylion

.......................


### Nodiadau Datblygu Ymarfer:




**Nodiadau Datblygu Ymarfer :**

Mae Un Llais Cymru wedi creu Nodiadau Datblygu Ymarfer – canllawiau syml i helpu Cynghorau i ddeall tasgau blynyddol allweddol ac i roi cyngor ar weithgareddau eraill y cyngor.

## Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru:




### Cynghorwyr sydd yn dymuno mynychu hyfforddiant - cysylltwch 3 clerc er mwyn iddynt llogi lle ichi ar y sesiwn penodol

Mi roedd hi yn hyfryd clywed mewn sesiwn ddiweddar Cynghorydd 82 mlwydd oed efo flynyddoedd o brofiad yn chwilio i fynychu bob modiwl eleni, ac yn nodi bod bob un iddo fynychu hyd yma wedi bod yn ddefnyddiol - Byth rhy hen i ddysgu !

---

# SWYDDI

## Swyddi gwag yn y sector Cynghorau Cymuned a Thref:

**Swyddi Gwag:**

Fel rhan o'r aelodaeth flynyddol, mae Un Llais Cymru yn cynnig cyfle i Gynghorau Cymuned a Thref sy'n aelodau hysbysebu swyddi gwag sy'n

ymwneud â’r sector, megis Clercod, Swyddogion Cyllid Cyfrifol, a rolau staff eraill.

**Gweler pob swydd gwag yma**

**Mwy o Fanylion**

## Swyddi Llywodraeth Cymru

Mae gyrfa yng Ngwasanaeth Sifil Cymru yn cynnig:

- cyfle i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru
- dysgu yn y swydd a chyfleoedd da i ddatblygu gyrfa
- oriau gweithio hyblyg a buddion cynhwysfawr.

Mae yna wahanol ffyrdd o ymuno â'r gwasanaeth sifil yng Nghymru.

**Swydd wag: Swyddog Wasg Cymraeg Hanfodol**

**Ystod cyflog neu fand Cyflog**: Swyddog Gweithredol Uwch £35,787 i £43,759

**Patrwm Gwaith**: Llawn amser (croesewir ceisiadau gan bobl sy’n gweithio rhan-amser, fel rhan o rannu swydd neu sy’n gweithio’n llawn amser)

**Cyfarwyddiaeth:** Cyfathrebu

**Cangen**: Swyddfa’r Wasg

**Lleoliad (au)**: Ledled Cymru

**Dyddiad cau**: **24/07/2025, 16:00**

Swyddog Wasg Cymraeg Hanfodol -

Pwynt cyswllt i gael rhagor o wybodaeth am y swydd: Matthew Pritchard - matthew.pritchard@gov.wales - 03000 258894

**Mwy o manylion**

-----------------------------

## Penodiadau Cyhoeddus

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae’r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a’r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus sydd wedi’u cyhoeddi gan

Lywodraeth Cymru yn nodi gweledigaeth a chamau gweithredu gyda'r nod o gefnogi darpariaeth y flaenoriaeth Weinidogol allweddol hon ar gyfer Cymru.

Rydyn ni'n awyddus i weithio gyda'n partneriaid allanol i ganfod unigolion sydd â diddordeb mewn gwneud cais am swyddi bwrdd.

I weld yr hysbysebion diweddaraf ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru, ewch i:

Bwrdd Cynghorol Cymru ar Ddatblygu Diwydiannol (WIDAB) - Penodi 5 Aelod –

**Penodi Aelod Annibynnol (Cyllid) i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr -**

**Y dyddiad cau ar gyfer yr apwyntiadau uchod yw 01/08/2025 am 16:00.**

Penodi Cadeirydd - Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol –

**Y dyddiad cau ar gyfer yr apwyntiadau uchod yw 12/09/2025 am 16:00.**

---

## Cadwch y Dyddiad

### Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol

**Dydd Mercher 3 Medi**

Gwahoddir bob Cyngor yng Nghymru i fynychu. Lle fyddwn yn ystyried cyfansoddiad newydd. Gofynnir yn garedig i clercod ein hysbysebu o manylion eich cynrychiolydd a dirprwy

### Cynhadledd Blynyddol Un Llais Cymru

**Dydd Mercher 1 Hydref**

Ymunwch â ni am grynodeb o gyflawniadau'r flwyddyn gan Un Llais Cymru. Mae Cynghorau a Pwyllgorau Ardal eisoes wedi anfon cynigion ar gyfer y cyfarfod blynyddol

---

## OVW Funded Projects Updates:

**Cost of Living Crisis Project News:**

**Cyngor Tref Pen-bre & Phorth Tywyn Gwasanaeth Pryd ar Glud**

Dechreuodd Cyngor Tref Pen-bre & Phorth Tywyn fenter bwysig yn cefnogi trigolion bregus i allu cael bwyd yn ystod COVID-19. Mae wedi parhau i fod yn adnodd gwerthfawr i bobl hŷn yn y gymuned wrth i'r cyngor ddal ati i ddarparu gwasanaeth dosbarthu prydau twym ddwywaith yr wythnos.

Gweler fideo astudiaeth achos https://youtu.be/0LUkXE2AZe0

Gweler dogfen ysgrifenedig o astudiaeth achos ar ein wefan Cym Pembrey & Burry Port Town Council Case Study

------------------------------

**Lleoedd Lleol ar gyfer Natur:**

**Mae'r rhaglen gyllido Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn anelu i greu 'Natur ar garreg eich drws'. Gallwn ddarparu amrywiaeth o wasanaethau i'ch Cyngor.**

**Mwy o manylion**

---

## Newyddion Allanol

### Pleidleisio yn 16

Bydd moderneiddio democratiaeth y DU yn golygu y bydd pobl 16 a 17 oed yn gallu pleidleisio yn yr etholiad cyffredinol nesaf. Bydd adnabod pleidleiswyr yn cael ei ymestyn i gynnwys cardiau banc er mwyn helpu mwy o bobl i arfer eu hawl ddemocrataidd. Bydd rheolau newydd llymach i warchod yn erbyn ymyrraeth wleidyddol dramor ac aflonyddu ar ymgyrchwyr.

Bydd hawl i bleidleisio yn cael ei rhoi i bobl 16 oed ym mhob etholiad yn y DU fel rhan o newidiadau aruthrol i foderneiddio democratiaeth y DU, gan gyflawni ymrwymiad allweddol o'r maniffesto ac yn helpu i adfer ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth drwy ein Cynllun ar gyfer Newid.

Bydd hyn yn golygu y bydd pobl ifanc, sydd eisoes yn cyfrannu at gymdeithas drwy weithio, talu trethi a gwasanaethu yn y lluoedd arfog, yn cael yr hawl i bleidleisio ar y materion sy'n effeithio arnynt. Bydd hyn yn dod ag etholiadau ledled y DU yn unol â'r hyn sydd eisoes yn digwydd yn yr Alban a Chymru, ac yn gam mawr tuag at gyflawni ymrwymiad y maniffesto, gan ddod â'r newid mwyaf i ddemocratiaeth y DU ers cenhedlaeth.

Mae'r cynlluniau, a gyhoeddwyd heddiw [17 Gorffennaf] mewn papur strategaeth newydd, yn ceisio hybu ymgysylltiad democrataidd mewn byd sy'n newid, ac yn helpu i adfer ymddiriedaeth mewn democratiaeth y DU.

Fel rhan o'r cynlluniau, mae'r llywodraeth yn mynd ymhellach i sicrhau nad yw pleidleiswyr cymwys yn cael eu hatal rhag pleidleisio, drwy ehangu adnabod pleidleiswyr i ganiatáu defnyddio cardiau banc a gyhoeddwyd yn y DU fel ffurf dderbyniol o ID yn y gorsaf bleidleisio. Mae hyn ochr yn ochr â defnyddio mwy o opsiynau digidol i gefnogi pleidleiswyr a staff gorsafoedd pleidleisio, gan gynnwys caniatáu IDau derbyniol fel y Cerdyn Milwr a thrwydded yrru y DU i gael eu defnyddio yn ddigidol pan fyddant ar gael.

Bydd Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr ddigidol newydd hefyd yn cael ei chreu i sicrhau y gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol ateb anghenion digidol pleidleiswyr, lleihau costau argraffu a sicrhau dosbarthiad cyflymach.

Bydd system gofrestru pleidleiswyr fwy awtomataidd yn ei gwneud yn haws i bobl gofrestru i bleidleisio ac yn lleihau'r angen i lenwi eu manylion ar draws gwasanaethau llywodraethol gwahanol dro ar ôl tro.

------------------------------

## Iechyd Digidol Cynghorau Cymuned a Thref

Gweler ynghlwm dolenni i'r adroddiad ar Iechyd digidol cynghorau cymuned a thref yn ogystal â **Datganiad Ysgrifenedig** gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai.

------------------------------

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

🚌 **Helpu i Lunio Dyfodol Trafnidiaeth yng Nghymru!**

Mae Trafnidiaeth Cymru yn gwahodd trigolion ar draws ein cymunedau i ymuno â'u Panel Mewnwelediadau – cyfle i ddylanwadu ar sut mae gwasanaethau trafnidiaeth yn gweithio ledled y wlad.

· Profwch offer digidol newydd cyn iddynt fynd yn fyw · Rhowch adborth ar nodweddion a gwasanaethau sydd ar ddod · Cymerwch ran mewn sesiynau 1-i-1 ar-lein (gyda thaleb anrheg fel diolch!) · Rhannwch eich barn drwy arolwg byr neu gyfweliadau

P'un a ydych yn teithio'n ddyddiol neu'n deithiwr achlysurol – gall eich adborth helpu i wneud gwahaniaeth.

**Ymunwch heddiw**

------------------------------

**Mae 2025 yn nodi 20fed pen-blwydd yr Egwyddorion Gwaith Chwarae. Fe'u datblygwyd gan Grŵp Craffu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae, a sefydlwyd gan Chwarae Cymru, mewn ymgynghoriad â sector gwaith chwarae'r DU a'u mabwysiadu yn 2005.**

Mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae yn sefydlu'r fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae ac, o'r herwydd, mae rhaid eu hystyried fel cyfanwaith. Maent yn disgrifio'r hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae, ac yn darparu'r persbectif gwaith chwarae ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

Mae Chwarae Cymru wedi comisiynu Tîm Datblygiad Plentyndod a Gwaith Chwarae Prifysgol Leeds Beckett, i gynnal arolwg ar sut a ble y defnyddir yr Egwyddorion Gwaith Chwarae. Bydd hyn yn golygu holi'r sector gwaith chwarae'n genedlaethol ac yn rhyngwladol, i ddynodi:

- sefydliadau a rhanddeiliaid sydd wedi mabwysiadu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae neu sy'n defnyddio'r Egwyddorion Gwaith Chwarae i hysbysu eu gwaith
- sefydliadau sydd wedi addasu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae er mwyn eu defnyddio yn eu lleoliad(au) priodol
- sefydliadau sydd wedi mabwysiadu ffurfiau amgen o egwyddorion canllaw ar gyfer gwaith chwarae.

Mae'r ymchwil hwn wedi ei ddylunio i ddysgu pa mor eang ac ym mha leoliadau y mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae wedi eu mabwysiadu 20 mlynedd ers iddynt gael eu dyfeisio gyntaf.

Mae'r gwaith ymchwil yma wedi ei gymeradwyo gan Grŵp Craffu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae sy'n dal yr Egwyddorion Gwaith Chwarae mewn ymddiriedolaeth ar ran y sector.

**Cymrwch ran**

Bydd yr arolwg ar gael o ddechrau mis Awst tan ddiwedd mis Rhagfyr 2025. Rydym yn awyddus iddo gael ei ddosbarthu mor eang â phosibl, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Rydym yn gofyn i unrhyw un sydd ag unrhyw rôl neu gyfrifoldeb am hwyluso chwarae ar gyfer plant mewn lleoliad wedi ei staffio, i gwblhau'r holiadur hwn.

Ydych chi'n cynrychioli sefydliad sydd â chysylltiadau ar draws y gweithlu plant allai fod yn defnyddio'r Egwyddorion Gwaith Chwarae yn eu gwaith? Allech chi helpu i hyrwyddo'r arolwg? Os felly, e-bostiwch y Tîm Datblygiad Plentyndod a Gwaith Chwarae.

------------------------------

## Gweithdai Ystadegau Cymru

Ar ran Ystadau Cymru hoffem eich gwahodd i gymryd rhan mewn un neu fwy o weithdai cydweithredol, o gyfres ag iddi dair rhan, i gefnogi datblygiad darn cyffrous newydd o waith. Nod y gwaith hwn yw:

*Rhoi cyngor strategol ac arfer gorau i sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru (o gyrff mawr i gynghorau tref a chymuned bach) er mwyn datgarboneiddio a chymryd camau i wrthsefyll newid hinsawdd yn eu hystad adeiledig*.

Bydd y gweithdai yn gyfle i helpu Ystadau Cymru â datblygiad y canllawiau strategol hyn.

Sylwer y bydd y gweithdai yn cael eu cynnal gan Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, a byddant yn Saesneg.

**Please use the below link to register for the online workshops that you wish to attend, and a calendar invite will be sent to you:**

**Defnyddiwch y ddolen isod i gofrestru ar gyfer y gweithdai yr ydych yn dymuno eu mynychu, a bydd gwahoddiad calendr yn cael ei anfon atoch:**

**Cofrestrwch yma**

**Gweithdy 1 – Datgarboneiddio'r Ystad Adeiledig**

Nod: Archwilio arfer gorau, heriau, a chyfleoedd i leihau allyriadau carbon ar ystad y sector cyhoeddus, a chynyddu cydnerthedd adeiladau rhag effeithiau'r hinsawdd.

Dyddiad: Dydd Mercher 23 Gorffennaf 2025

Amser: 11am - 12pm

Dolen: **Teams Meeting Link**

**Gweithdy 2 – Defnydd Tir ac Addasu i'r Hinsawdd**

Nod: Deall sut y gall sefydliadau'r sector cyhoeddus ddefnyddio eu tir i ddatgarboneiddio a lleihau risgiau i'r hinsawdd.

Dyddiad: Dydd Mercher 30 Gorffennaf 2025

Amser: 11am - 12pm

Dolen: **Teams meeting link**

**Gweithdy 3 – Llywodraethu, Ymddygiad a Chadwyni Cyflenwi**

Nod: Archwilio sut y gall strwythurau llywodraethu, caffael, a newid ymddygiad gefnogi datgarboneiddio a nodau addasu i'r hinsawdd.

Dyddiad: Dydd Mercher 6 Awst 2025

Amser: 11am - 12pm

Dolen: Teams meeting link

------------------------------

**Ydach wedi tanysgrifio i gylchlythyr Archwilio Cymru?**

**Dyma linc i'w gwefan lle allwch chi tanysgrifio i gylchlythyr defnyddiol llawn gwybodaeth.**

---


**Un Llais Cymru / One Voice Wales**

24 College St, Ammanford SA18 3AF
United Kingdom


Mae'r E - Bwletin yma yn cael ei dosbarthu i bob Cyngor yng Nghymru


Dad-Tanysgrifio / Unsubscribe

SENT BY mailer lite